ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU | CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES



# **Ysgol Gynradd Sain Tathan** *Sain Tathan, Bro Morgannwg*

*Prosiect adnewyddu lle cafodd bron i 400 tunnell o wastraff adeiladu a dymchwel ei ailgyfeirio.*

**Mae Ysgol Gynradd Sain Tathan yn sir wledig Bro Morgannwg mewn ardal sy'n gymysgedd o gymunedau brodorol a theuluoedd cysylltiedig â gwersyll milwrol Sain Tathan.**

Cysylltodd Cartwright Construction ag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) yn gofyn am gyngor ynghylch sut i ddelio â gwastraff penodol a gai ei gynhyrchu yn ystod y prosiect adnewyddu sylweddol hwn. Sylweddolai tîm comisiynu'r prosiect fod ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn gosod her o safbwynt cludo a gwaredu gwastraff. Yn bwysicach fyth, roeddent yn awyddus i leihau swm y gwastraff a fyddai'n cael ei anfon i safle tirlenwi.

Cawsant gyngor gan CEW ynghylch adfer ac ailgylchu ar y safle. Cydweithiwyd yn agos â Cartwright Construction a'r contractwr rheoli gwastraff, Red Dragon Recycling, i'w hysbysu am yr arferion gorau a'r technegau diweddaraf ar gyfer adfer o fewn y safle.

## MANYLION Y PROSIECT

**Adnewyddu Ysgol Gynradd Sain Tathan, Bro Morgannwg.**

**Thema Arfer Gorau:**
- Lleihau gwastraff




## TÎM Y PROSIECT

**Cleient:** **Cartwright Construction**
**Red Dragon Recycling**
**Cyngor Sir Bro Morgannwg**

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

**Paul Jennings, CEWales**
paul.jennings@cewales.org.uk



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



O ganlyniad arbedwyd yr angen i anfon mwy na 400 tunnell o wastraff adeiladu i safle tirlenwi wrth i gontractwyr gydweithio i dynnu allan eitemau coed a gwydr a stripio a gwahanu'r gwahanol ddeunyddiau cyn eu gosod mewn cynwysyddion storio gwastraff pwrpasol ar y safle.

Cafodd 99% o'r gwydr, uPVC, strwythurau alwminiwm a seliau rwber eu gwahanu a'u hadfer. Trwy fod yn ymwybodol drwy'r amser o ystyriaethau gwastraff a'r angen i wahanu deunyddiau ar y safle, arbedodd y prosiect fwy na £5k ar y gost o logi sgipiau yn unig.

Hefyd, drwy ddilyn yr arferion gorau o ran lleihau gwastraff, osgoi tirlenwi ac arbed costau, canmolwyd y contractwr am yr ystyriaeth a roddodd i'r gymuned drwy leihau effaith y gwaith adeiladau wrth ostwng yn ddramatig yr angen i gludo gwastraff drwy bentref Sain Tathan.

Meddai Rheolwr Gyfarwyddwr Cartwright Construction, Paul Cartwright,

*"Roedd yn enghraifft ardderchog o gydweithredu ar waith – y teimlad ein bod wedi rhannu problem a'i datrys. Drwy ein hymwybyddiaeth o'r angen i leihau gwastraff llwyddwyd i greu ysgol well yng nghalon y gymuned heb darfu bron ddim ar yr amgylchedd na'r gymdeithas."*



A typical indicative school class in 2015

ST. ATHAN PRIMARY SCHOOL

Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
2il Lawr, Cwrt Longcross / 47 Heol Casnewydd / Caerdydd CF24 0AD
T: 029 20 493322 F: 029 20 493233
E: info@cewales.org.uk

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES